# SL(6)648 - Rheoliadau Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017") yn gwneud darpariaeth i gyrff cyhoeddus rhestredig gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (AEI). Diffinnir AEI fel asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, ar gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru

O dan adran 108(1) o Ddeddf 2017, rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r amgylchiadau y mae rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI oddi tanynt a'r ffordd y dylai AEI gael ei gynnal, o fewn rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y ddarpariaeth honno. Maent yn ei gwneud yn orfodol i gorff cyhoeddus ddefnyddio AEI pan fydd yn gwneud penderfyniad o natur strategol am sut i arfer ei swyddogaethau. Maent yn darparu bod yn rhaid i'r AEI:

- nodi'r penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef;
- nodi'r grŵp poblogaeth y gallai’r pnderfyniad effeithio arnynt ac effeithiau'r penderfyniad ar y grŵp hwnnw;
- nodi ac asesu unrhyw fesurau a allai atal, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol neu gynyddu rhai cadarnhaol;
- nodi ac asesu unrhyw beth arall y mae'r corff cyhoeddus yn ei ystyried sy’n berthnasol i’r AEI.

Mae’r rheoliadau hefyd:

- yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi canllawiau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gynnal AEI;
- yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi AEI cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei gyflawni;
- yn diwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt gynnal AEI o dan adran 110(1).

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod ferswin ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ii) – ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano.**

Mae adran 108(4) o Ddeddf 2017 yn darparu y caiff rheoliadau Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru roi cymorth i gorff cyhoeddus arall sy'n cynnal AEI. Mae adran 108(5) yn darparu y gall y rheoliadau nodi sut y mae'r cymorth i gael ei roi. Mae rheoliad 5 o'r rheoliadau hyn yn darparu bod rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi canllawiau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus sy'n cynnal AEI, a dyna hyd a lled y ddarpariaeth a wneir o dan adran 108(4) a (5).

Dywed paragraff 4.32 o'r Memorandwm Esboniadol a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn:

> "*Yn ogystal â chanllawiau, bydd yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu rhaglen o gymorth i gyrff cyhoeddus a fydd yn cynnwys hyfforddiant, pecynnau cymorth, cynnal rhwydwaith ymarferwyr AEI a gweithgareddau eraill sy'n fuddiol i gyrff cyhoeddus.*"

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio ar ba sail y bydd yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu'r cymorth ychwanegol hwn ac egluro pam nad yw'r rhwymedigaethau hyn wedi'u pennu yn y Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Cafodd Deddf 2017 y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Yn unol ag adran 126, daeth nifer fach o adrannau i rym ar adeg y Cydsyniad Brenhinol, gan adael y mwyafrif i gael eu cychwyn drwy Orchymyn Gweinidogion Cymru. Gwnaeth Gweinidogion Cymru Orchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 9) 2025 ar 16 Medi 2025 i gychwyn Rhan 6 o Ddeddf 2017 ar 19 Medi 2025, ychydig dros 8 mlynedd ar ôl i Ran 6 gael ei deddfu. A all Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw Rhan 6 wedi'i chychwyn tan nawr?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Medi 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.